



Sut mae Mencap yn cefnogi pobl i drin eu harian?

Fe wyddom fod cyllid pobl yn rhan bwysig o'u gallu i fyw y bywyd maen nhw'n ei ddewis.

Mae rhai o'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi yn annibynnol o ran ymdrin â'u cyllid, tra bo eraill angen cefnogaeth ychwanegol i'w drin yn effeithiol. Mae pawb yn wahanol, felly mae'n bwysig cefnogi pobl i drin eu harian mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'u hanghenion, eu gallu a'u hamgylchiadau.

Comisiynir Mencap i ddarparu gwasanaethau mewn amrywiaeth o ffyrdd: gan bobl rydyn ni'n eu cefnogi, eu teuluoedd neu gan yr awdurdodau lleol. Fel arfer, penderfynir a oes ar rywun angen cefnogaeth â'u harian ar ôl asesu eu gallu i drin arian; mae'r asesiad hwn yn ein helpu i wybod pa gefnogaeth fydd ei angen ar bobl a pha un a ddylai Mencap ddarparu hyn.

Pan fyddwn ni'n cael ein comisiynu i ddarparu cefnogaeth i bobl â'u cyllid fe fyddwn ni'n:

- Sicrhau bod ein cydweithwyr yn cael eu hyfforddi i gefnogi pobl i drin eu harian yn ôl eu hangen
- Cadarnhau bod ar y person angen cefnogaeth â'i arian ac asesu faint o gefnogaeth sydd ei angen arno a sut olwg sydd ar y gefnogaeth honno
- Trafod â'r person ym mha ffordd yr hoffai wario ei arian
- Cefnogi pobl i gyllidebu'n effeithiol er mwyn iddyn nhw fedru gwneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw
- Sicrhau ein bod yn cynnal ymwybyddiaeth o gam-drin ariannol ymysg cydweithwyr a'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi a bod pobl yn gwybod ble i fynd os oes ganddyn nhw bryderon.

Rydyn ni'n cymryd ein cyfrifoldeb o gefnogi pobl â'u cyllid o ddifrif ac mae gennym nifer o bolisiau, dulliau gweithredu a gwiriadau wedi'u gosod yn eu lle. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y rhain gan reolwyr sy'n goruchwyllo'r gwasanaeth.

Siarad â chi am eich cyllid

Mae'n bwysig ein bod yn cefnogi pobl mewn ffordd sydd orau iddyn nhw, felly fe fyddwn ni'n trafod hyn â chi yn gynnar i sicrhau eich bod yn gwybod sut y byddwn ni'n darparu cefnogaeth a chytuno sut y gallwn ni weithio gyda'n gilydd.

Diogelu

Mae ein polisi diogelu yn ein galluogi i gadw pobl yn ddiogel rhag pob mathau o gam-drin, gan gynnwys cam-drin ariannol. Os oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch cam-drin ariannol, gallwch siarad ag unrhyw un o'r rheolwyr sydd â'r cyfrifoldeb o oruchwylio'r gwasanaeth neu godi'r pryder ynghylch diogelwch eich hun. Gweler dogfen '*Sut y mae Mencap yn cadw pobl yn ddiogel?*' ym mhhecyn Gwell Gyda'n Gilydd i gael mwy o wybodaeth..

